Tud 1.

Cofnodion draft Cyngor Llanbedr 2.10.25

Yn Bresennol

Robin, Eirwyn, Jane, John, Helen, Annwen, Kevin, Nia, Helen.

Ymddiheuriadau

Luisse (methu cael cyfieuthu hybrid iddi), Gwynfor Owen.

Datgan Buddiant – dim I'w ddatgan

Cais Cynllunio safle ger Capel Salem - Fallen Stock cais ar gyfer cyflenwad dwr a soak away. Hwn yn gais trylwyr iawn. Pasiwyd I beidio ac anfon unrhyw sylwadau.

Gair gan y Cadeirydd – croesawu pawb I'r cyfarfod. Yn bryderus iawn bod agwedd pobl ddieithr I'r Pentref yn anymunol a gwarthus dan rai amgylchiadau. (Fandaliaeth a diffyg parch).

Cydymdeimlwyd hefyd gyda Annwen Hughes ar golli modryb yn ddiweddar, Catrin Richards, Cwm yr afon gynt.

Derbyn Cofnodion y Cyfarfod diwethaf – fel rhai cywir ond angen cywiro enw yn y cofnodion o Gwynfor I John. (dau frawd)

Adroddiad Cyllid

Nododd y Clerc bod 2 ddogfen wedi eu cymeradwyuo 23/24 a 24/25 gan yr Archwilydd Allannol erbyn hyn.

Angen rhoi rhain ar y we.

Angen cyhoeddi ar y we ac yn y bwrdd hysbysebu bod y dogfennau yn barod ar gael I unrhyw un ymweld a hwy ac I dderbyn copi am bris o £2.00 y dudalen

Mae elfennau ddim yn cydymffurfio unwaith yn rhagor gyda y drefn gyllido. Pob dima yn ei le yn iawn.

Nodi edrych ar gontract y Clerc, contract Gwaith yn erbyn cyllideb.

Reserves yn y gyllideb. Angen nodi yn well am hyn.

Adroddiad Cyllid

Yn y Banc Heddiw mae yna £36650.48

Mae hyn ar o l talu 6 mis o gyflog a costau swyddfa I'r Clerc. £1286.47 . Hefyd £43.12 am HMRC.

£66 paye I'r Accountant. (Hyn yn cynnwys TAW o £11.00

Gwariant arall fydd Cyfieuthu ar y pryd Mis Medi a mis Hydref.

Cyfrannu at Ysgol Feithrin £500

Anfoneb Delyth am roi gwybodaeth ar y wefan

Anfoneb Perri Jones am dorri'r fynwent.

Bydd anfonebau am yr Archwiliad Allanol.

Nododd ETh bod angen drws tan newydd ar y Neuadd. Bydda hyn yn costio £2227 (TAW yn gynwysiedig yn hwn) a hefyd cost gosod. Pris gan Simon Jones. Pasiwyd bod ETh yn cael croes doriad o'r costau, er mwyn gweld ble gelli'r helpu gyda'r Cyngor Cymuned. Nododd ETh bod £1500 wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer rhodd I'r Neuadd .

Materion Eraill yn Codi o'r Cofnodion

Y Fynwent

*Gwaith angen ei wneud parthed cynllun bioamrywiaeth. Edrych a r hyn yn y cyfarfod safle 21.10.25 am 5.30

* Yn sgil yr uchod hefyd yr angen am glirio mwsogl o'r llwybr. Alex Meade wedi cytuno I wneud hyn. (Cael cyflenwad dwr gan y Victoria.

* Bin brown – nododd y Clerc ei bod yn dal I wagio hwn. Haws gneud na gneud trafferth.

* Bedd Teulu Glynne Artro yn fler iawn. Tyfiant coed arnynt. ETh am gysylltu gyda'r Teulu.

* Cwyn bod y beddi Newydd yn sincio. Dim digon o bridd arnynt. Y Clerc wedi cyslltu gyda Martin Kerr sy'n agor y beddi, a hefyd gyda Dylan (Pritchard a Griffiths) parthed hyn.

Maes Parcio Neuadd – angen gneud rhywbeth yma. Scooters anabl yn methu cael mynediad oherwydd tylla yn y Gwaith haear. Angen gofyn am bris I wneud llwybr. Codi hyn yn y Pwyllgor Neadd. Angen 3 pris.

Damwain drone – Y Clerc wedi cysylltu gyda **Snowdonia** Airospace (dim ymateb), hefyd gyda Liz Saville Roberts a hefyd gyda Nia Bowden (Cyngor Gwynedd) – neb yn gwybod am y digwyddiad. Nododd JTW ei bod wedi cysylltu efo CAA (Civil Air Assossiation) – nad yw'r dronau I hedfan o dan 1000 troedfedd.

Gwybodaeth am hyn ar wefan Grwp Harlech.

Materion Cyngor Gwynedd

Rhiw Cypla - nododd JTW ei bod hi a'I gwr wedi bod yn clirio, a gwagio draeniau ar y ffordd yma. Nidy w Cyngor Gwynedd wedi gwneud dim hyd yma. Mae angen clirio draeniau.

Nododd KT hefyd bod angen clirio draeniau o amgylch Bryn Deiliog, Rhif 6 a 7 yn arbennig, a draeniau o dan y palmant yma.

Draen ger Hafan Artro hefyd angen sylw. Dwr yn byrlymu ar hyd y ffordd o Tyddyn Pandy I lawr drwy Bryn Deiliog ac I'r ffordd Fawr ger Hafan Artro.

Mae sefyllfa efo draeniau dwr - Dwr Cymru wedi ei wneeud. Angen cysylltu gyda Cyngor Gwynedd eto parthed hyn

Llwybrau Cyhoeddus

Bod y bont bren dros Afon Nantcol wedi malu. Llwybr wedi cau. Hefyd bod Cyngor Gwynedd yn clirio y llwybr 42 I fyny am Glynne Artro/ Tyddyn Bach.

Adroddiad gan Cyngh. Annwen Hughhes.

1. Nodi nifer o fandaliaeth yn yr ardal -toiledau merched wedi blocio. Mae hi wedi clirio rhain ei hun.
2. Bod car yn Pentre Gwynfryn bellach wedi cael ei symud. Newydd da. Ondr wan mae car arall yn parcio gyferbyn a Shop Fawr.
3. Angen clirio bwrdd hysbysfwrdd y Neuadd.
4. Pwy sydd berchen y camper llwyd gyferbyn a Riverside. (Ar y ffordd).
5. Llwyddiant ysgubol oedd Bore Coffi at Mc Millan yn y Vic. Codwyd swm sylweddol o £1625 o arian. Bu I'r Ysgol Gynradd fynychu hefyd.
6. Ffordd Sarn Hir angen sylw cyn I ddamwain erchyll ddigwydd yma. Mae yma arwyddion, ond mae'n rhaid arafu cyflymder teithio. Cysylltu gyda Iwan ap Trevor Cyngor Gwynedd.
7. Bydd cyfarfod liaison Ffordd y Cambrian ar 21 Tachwedd er gwybodaeth.

Cyfieuthu ar y pryd a Hybrid

Y Clerc a'r Is Gadeirydd wedi bod mewn cyfarfod Teams parthed hyn am a11.30 y bore yma.

Yn bresennol Jeremy Cymraeg 2050, Tim Donegani – polisiau Llywodraeth Leol

Paul Egan a Katherine Brown Un Llais Cymru. Hyn yn creu trafferth I nifer o Gynghorau er bod hi yn ddeddf I fod yn hyblyg ac I wneud cyfarfodydd yn agored I bawb. Bydda angen microffonau cryfach (dim canllawiau ar hyn).

Bod gwasanaeth Teams ar gael gyda bwtwm ar gyfer newid iaith. Drwy Microsoft 356 mae hyn I fod am ddim felly byddem yn arbed arian yn y pen draw. Wedi derbyn linc ar gyfer deal mwy am hyn.

Bod Un Llais Cymru am anfon holiadur allan I Gynghorau I weld pa system mae nhw yn ei ddefnyddio. Hyn I ddigwydd yn ystod yr wythnosau nesaf,

Pasiwyd I drialu y Teams cyn canslo y Zoom presennol.

Cae Chwarae

Nododd y Clerc bod y fainc / wrdd picnic wedi cyrraedd. Angen lleoliad iddi yn y cae chwarae. Pasiwyd I gyfarfod bore Sul am 10.00 o'r gloch yn y cae. JTW, Clerc a ETh.

Bin yr Arth – angen archebu bin liner ar gyfer hwn. Clerc I holi am bris.

Meinciau angen sylw

Mae dwy fainc Bellach o eiddo y Cyngor wedi eu symud oherwydd diogelwch. Gwaith haearn wedi cancro. Be I wneud efo nhw? Oes eu hangen? Neu archebu rai Newydd.

Clerc I chwilio am brissiau ac anfon manylion dros e bost I'r Cynghorwyr at mis nesaf.

Un fainc arall yn CCF angen ei symud I'r fynwent?

Mainc breifat yn y fynwent angen ei thrwshio, gan y perchennog..

Talwrn Bach

1. Bin sbwriel ar y platform – dim byd hyd yma
2. Llinell wen ar flaen y platform – heb ei wneud.
3. Wedi archebu yr arwydd – llwybrau

Sul y Cofio –

Bod KT angen polici ysiwrans cyfredol ar gyfer llenwi ffurflen ar gyfer cau'r ffordd y sul 9 fed o Dachwedd.

Cododd AH y byddai yn dda I gynnig paned a bisged ar o l y gwasanaeth yn y Neuadd. Cytunwyd efo hyn, a bydda raid hysbysu ymlaen llaw.

Nododd JE dylid cael llnau y ffordd – o'r mes cyn hyn.

Materion Eraill

*Nododd KT ei bod ar fin sgwennu llythyr fel Llywodraethwr ar gyfer gwasanaeth plant gyda anghenion arbennig. Holi a fyddai'r Cyngor yn cefnogi hyn. Ateb byddent.

* Nododd y Clerc iddi ar ran y Cyngor sgwennu I gefnogi Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

* Nododd John Evans bod Gorsaf Dan Harlech a Dolgellau Bellach yn agored llawn amser. Newydd da.

* Gan bod y cyfarfod gyda TFW wedi ei ohirio ym mis Medi, bydd cyfarfod zoom ar gael drwy wahoddiad 15 o Hydref yn y bore. Y Clerc wedi anfon ar RW a JTW.

* Fforwm Ardudwy – wedi anfon gwahoddiadau dros e bost I'r Cynghorau.

7 o'r gloch ar y 15.10.25

Angen rhoi gwahoddiad I Reg Chapman Harlech I roi manylion a diweddariad ar sefyllfa HAL.